



Hawliadau Atebolrwydd – Nodiadau Canllaw

Mae'n bwysig eich bod chi'n darllen ac yn deall y nodiadau canllaw hyn cyn llenwi'r ffurflen hawliadau

Pryd mae modd cyflwyno hawliad yn erbyn y Cyngor?

Er mwyn llwyddo i hawlio iawndal gan y Cyngor, bydd angen i chi brofi'n gyfreithiol bod y Cyngor wedi bod ar fai. Does dim hawl awtomatig i gael iawndal, ac nid yw'r ffaith bod damwain yn digwydd yn golygu y bydd y Cyngor ar fai.

Yswiriant Arall

Os oes gennych Yswiriant Cynnwys Cartref, Adeiladau neu Yswiriant Cerbyd y byddai'r colled/niwed yn berthnasol iddo, rydym yn argymhell eich bod chi'n cyflwyno hawliad mewn perthynas â'r polisi priodol gyntaf. Mae hyn oherwydd mae'n debygol y bydd setliad ar sail "newydd am hen" ac ni fydd angen i chi brofi bod unrhyw un ar fai am y colled, felly mae'n debygol y bydd yr hawliad yn cael ei ddatrys yn gynt. Yna, mae'n bosibl y bydd yr yswirwyr yn ceisio adfer eu costau gan y Cyngor os ydynt o'r farn bod y Cyngor ar fai. Mae adferiad llwyddiannus gan eich yswirwyr yn golygu na fydd yn debygol i'ch premiwm a disgownt dim hawliad gael eu heffeithio.

Pa wybodaeth sy'n rhaid i CHI ei darparu wrth hawlio?

Rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol:-

- Crynodeb eglur o'r ffeithiau y mae'r hawliad yn berthnasol iddynt gan gynnwys amser a dyddiad y digwyddiad.
- Cyfeiriad at natur a graddfa eich anaf(iadau) a/neu fanylion am unrhyw ddifrod i eiddo
- Manylion am unrhyw golledion ariannol a ddiodefwyd
- Gwybodaeth arall ddigonol i alluogi rhoi cychwyn ar ymchwiliadau ffurfiol, e.e. ffotograffau. Dylai unrhyw ffotograffau o'r digwyddiad ddangos y nam a'r ardal o'i amgylch yn eglur. Rhwng 'X' wrth y nam penodol a dangos y cyfeiriad roeddech chi'n tethio. Os nad oes ffotograffau ar gael, efallai y byddwch am ddefnyddio gwasanaethau mapiau ar-lein i nodi'r union leoliad. Gallai rhif y tŷ agosaf neu'r golau stryd agosaf hefyd fod o gymorth.
- **Heb y wybodaeth hon, ni fydd modd prosesu'r hawliad.**

Beth sy'n digwydd unwaith y byddwch wedi cyflwyno hawliad?

- Bydd yr Is-adran Yswiriant a Rheoli Risg yn cydnabod ei fod wedi derbyn eich hawliad o fewn 15 diwrnod gwaith ac o bosibl yn anfon yr hawliad ymlaen at swyddogion hawliadau yswiriant allanol y Cyngor. Bydd y swyddogion hawliadau yn cydnabod eu bod wedi derbyn yr hawliad o fewn 5 diwrnod gwaith.
- Bydd y Cyngor yn ymchwilio i'r honiadau ac yn anfon adroddiad at y swyddogion hawliadau.
- Caiff hawliadau eu prosesu cyn gynted â phosibl bob tro, fodd bynnag, mae'r gyfraith yn caniatáu hyd at 3 mis i ymchwilio i hawliadau anafiadau personol a phennu a oedd bai o gwbl ar y Cyngor. Er nad oes cyfyngiad amser o'r fath ar hawliadau'n ymwneud ag eiddo yn unig, bydd y Cyngor yn ceisio

gwneud penderfyniad ar atebolrwydd o fewn 3 mis.

- Os yw'r hawliad yn ymwneud â difrod i'ch eiddo, bydd y swyddogion hawliadau angen derbynebaw gwreiddiol a/neu ragamcan o bris disodli a chadarnhad o oedran yr eitemau. Sylwch **na fydd** unrhyw gynning setliad ar sail newydd am hen ac yn yr un modd bydd yn cael ei addasu os yw'r offer wedi gwisgo.
- Yn ogystal â'r wybodaeth a nodir uchod, mae'n bosibl y bydd y swyddogion hawliadau'n gofyn i chi nodi eich enw llawn, dyddiad geni a rhif yswiriant gwladol os nad ydych wedi'u rhoi yn barod.
- Os yw'r hawliad ar gyfer anaf, bydd angen tystiolaeth feddygol. Bydd y swyddogion hawliadau'n anfon ffurflen i'w chwblhau er mwyn eu galluogi nhw i ofyn i'r meddyg teulu/ysbyty am adroddiad. Sylwch y gall yr amser mae'n cymryd i dderbyn yr adroddiad amrywio'n helaeth ac mae'n rhywbeth nad oes modd ei reoli heblaw am gyflwyno negeseuon atgoffa rheolaidd. Wrth gwrs, yn yr achos hwn, mae gennych hawl i drafod y mater â'r meddyg teulu/ysbyty.
- Os nad yw'r adroddiad meddyg teulu/ysbyty yn ddigonol i asesu gwerth eich anafiadau'n gywir, mae'n bosibl y bydd rhaid i'r swyddogion hawliadau benodi ymgynghorydd allanol y bydd angen eich asesu er mwyn paratoi adroddiad cynhwysfawr. Gall y broses hon fod yn hirfaith a chymryd sawl mis.

Y canlyniad terfynol

Unwaith y mae'r holl dystiolaeth wedi'i chasglu a'i hasesu, bydd y swyddogion hawliadau'n gwneud penderfyniad ar atebolrwydd cyfreithiol y Cyngor: -

- Os gwneir penderfyniad nad oes atebolrwydd ac nid yw'r swyddogion hawliadau'n talu'r hawliad, byddwch yn derbyn llythyr yn egluro pam. Bydd angen cysylltu â'r swyddogion hawliadau os ydych am drafod hyn ymhellach.
- Os derbynir yr atebolrwydd, bydd y swyddogion hawliadau'n cynnig iawndal, yn ysgrifenedig, y maent yn ystyried sy'n adlewyrchu'n gywir lefel briodol o iawndal o ystyried yr amgylchiadau.

Twyll

Bydd unrhyw hawliad sydd wedi'i nodi'n dwyllgar neu wedi'i orliwio, boed hynny'n ystod prosesu'r cais neu ar ôl hynny, o bosibl yn cael ei basio ymlaen at yr Heddlu a/neu Gwasanaeth Erynn y Goron a gall fod yn amodol ar erlyniad troseddol.

Ymholiadau

Os oes gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch â: -

e-bost HawliadauAtebolrwydd@caerdydd.gov.uk

Ffôn: 029 2087 2319/2253

Ysgrifennwch at: **Cyngor Caerdydd, Hawliadau Yswiriant, Ystafell 354, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW**

Mae gennych hawl i geisio cyngor annibynnol ar unrhyw adeg yn ystod prosesu'r hawliad.

Cadwch y nodiadau canllaw hyn i'r dyfodol

Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Cyngor Caerdydd - Ffurflen Hawliadau Atebolrwydd



Er mwyn i hawliad fod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i chi brofi bod y difrod/anaf yn fai ar y Cyngor. Cyfeiriwch at y Nodiadau Canllaw sydd wedi'u hatodi i'r ffurflen hon. Maent wedi'u darparu i'ch helpu chi i lenwi'r ffurflen hawliadau'n gywir ac i helpu i osgoi unrhyw oedi diangen.

Adran A: Manylion yr Hawliwr	
Enw:	<u>Math o ddigwyddiad</u>
Mr / Mrs / Miss / Arall * Gwryw / Benyw *	Anaf Personol* Os ydych yn hawlio ar gyfer anaf personol rhaid llenwi Adran B
Cyfeiriad:	Difrod Arall* Llenwch Adran A ac Adran C ymlaen
Cod Post:	Cerbyd, Dillad, Eiddo ac ati
Rhif Ffôn:	* - Dileer fel sy'n briodol
Cyfeiriad E-bost:	
Ydych chi'n denant Cyngor YDW <input type="checkbox"/> NAC YDW <input type="checkbox"/>	Dull Cyswllt Dewisol: Post <input type="checkbox"/> E-bost <input type="checkbox"/>

Adran B: Anaf Personol	
Rhif Yswiriant Gwladol:	Manylion y Cyflogwr:
Dyddiad Geni:	
Swydd:	
Disgrifiwch yr anafiadau a ddioddefwyd yn y ddamwain / digwyddiad:	
Ydych chi wedi trafod yr anafiadau â doctor? YDW <input type="checkbox"/> NAC YDW <input type="checkbox"/>	
Enw'r Doctor:	
Cyfeiriad:	
Cod Post:	
Enw unrhyw ysbyty yr aethoch iddo ar ôl y ddamwain / digwyddiad:	
Aethoch chi i'r ysbyty mewn ambiwlans? DO <input type="checkbox"/> NADDO <input type="checkbox"/>	
Enw'r Ymgynghorydd/Doctor wnaeth roi triniaeth i chi:	

Ydych chi dal yn cael y driniaeth?

YDW

NAC YDW

Adran C: Manylion y Digwyddiad

Lleoliad:

Dyddiad y digwyddiad:

Amser y digwyddiad:

am / pm

Disgrifiwch yn union sut y digwyddodd y digwyddiad, a'r niwed a achoswyd i'ch eiddo neu'r anaf a achoswyd i chi. Pryd bynnag y bo'n bosibl, atodwch ffotograffau o'r eiddo a niweidiwyd a'r nam a achosodd y digwyddiad. Dylai unrhyw ffotograffau o'r digwyddiad ddangos y nam a'r ardal o'i amgylch yn eglur. Rhowch 'X' wrth y nam penodol a dangos y cyfeiriad roeddech chi'n tethio. Os nad oes ffotograffau ar gael, efallai y gallwch ddefnyddio gwasanaethau mapiau ar-lein i nodi'r union leoliad. Gallai rhif y tŷ agosaf neu'r golau stryd agosaf hefyd fod o gymorth. Sylwer bod yn rhaid i'r Cyngor allu adnabod yr union nam cyn mynd â'ch hawliad yn ei flaen.

A achoswyd unrhyw ddifrod o ganlyniad uniongyrchol i waith cyflogai'r Cyngor yn eich cartref neu eiddo? DO NADDO

Os "do", rhowch fanylion y cyflogai a'r gwasanaeth y mae'n gweithio iddo.

A achoswyd y difrod o ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith a wnaed yn eich cartref gan Gontractwr neu gyflogai/cyflogeion Contractwr, yn gweithio ar ran y Cyngor? DO NADDO

Os "do" rhowch fanylion y Contractwr a/neu ei gyflogai:

(Sylwch y bydd hawliadau'n ymwneud â Chontractwr neu gyflogai Contractwr, yn cael eu pasio ymlaen at y Contractwr i ddelio â chi'n uniongyrchol dan ei yswiriant atebolrwydd ei hun)

Adran D: Atebolrwydd

Ym mha ffordd / pam ydych chi'n credu bod y Cyngor ar fai?

Ydych chi'n ymwybodol a yw'r Cyngor wedi cael gwybod eisoes am y gwall a achosodd y difrod / digwyddiad?

YDW Nodwch fanylion yn Adran E

NAC YDW Ewch i Adran F

Adran E: Adroddiad Blaenorol o'r Gwall

Ar ba ddyddiad(au) adroddwyd am y gwall? (dd:mm:bbbb)

I bwy yr adroddwyd am y gwall?

Ar ba ddyddiad(au) gwnaethpwyd unrhyw waith trwsio? (dd:mm:bbbb)

Os gwnaeth contractwr unrhyw waith trwsio, nodwch eu manylion os yw'n bosibl:

Nodwch fanylion unrhyw waith adferol / trwsio a wnaethpwyd, os yw'n bosibl:

Adran F: Hawl am Ddifrod i Offer

Dylid atodi derbynebaw ar gyfer eitemau wedi'u difrodi a/neu ragamcan o bris gwaith trwsio i'r ffurflen hon

Disgrifiad o'r eiddo a gafodd ddifrod	Pryd prynwyd yr eiddo	O ble	Pris yr eitem	Pris trwsio/glanhau	Pris disodli

Adran G: Tystion

Nodwch enw(au) a chyfeiriad(au) y tystion os yw'n briodol

Adran H: Yswiriant Cartref

Oes gennych chi Yswiriant Cynnwys Cartref neu Adeiladau?

OES NAC OES

Oes oes, nodwch enw eich yswiriwr - _____

Yw'ch cynnwys chi wedi'i yswirio drwy Gynllun Yswiriant Cynnwys Cartref y Cyngor?	DO <input type="checkbox"/> NADDO <input type="checkbox"/>
Os ateboch yn gadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, ydych chi wedi cyflwyno hawliad ar gyfer y colled/difrod hwn ar eich polisi yswiriant eich hun?	DO <input type="checkbox"/> NADDO <input type="checkbox"/>

Adran I: Hysbysiadau Pwysig

Datganiad Diogelu Data

Bydd y wybodaeth yr ydych chi wedi'i darparu'n cael ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 at ddibenion prosesu eich hawliad atebolrwydd. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ond gallai gael ei rhannu ag yswirwyr eraill y Cyngor a thrydydd partion gan gynnwys swyddogion hawliadau allanol, cyfreithwyr a phartion perthnasol eraill allai fod yn rhan o'r broses hawliadau.

Dan ein dyletswydd i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus yr ydym yn eu gweinyddu, mae'n bosibl y bydd Cyngor Caerdydd a'i gynrychiolwyr hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd at ddibenion atal a chanfod twyll. Gall hyn gynnwys chwilio drwy gofrestrau gwrth-dwyll/lladrad sy'n helpu i ddilysu gwybodaeth ac atal hawliadau twyllodrus ac hefyd er mwyn pasio gwybodaeth ymlaen ynghylch y digwyddiad hwn i'r gofrestr/cofrestrau gwahanol i bartion eraill allu eu gweld yn y dyfodol. I gael rhagor o wybodaeth ar sut mae'r Cyngor yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â Chyfreithiau Diogelu Data, gweler ein Polisi Preifatrwydd llawn ar wefan y Cyngor <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>

Adran J: Datganiad

Rwy'n cadarnhau mai fi yw testun y wybodaeth uchod ac yn datgan bod y wybodaeth a roddwyd ar y ffurflenni hyn yn gywir ac yn gyflawn. Rwyf wedi darllen a deall y manylion ynglŷn â sut bydd fy nata personol yn cael ei brosesu ac rwyf wedi cael y dogfennau canllaw.

Wrth lofnodi'r isod rwy'n deall y bydd yr wybodaeth yr wyf wedi'i darparu'n cael ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd fel y'i nodir uchod.

Printiwch eich enw: _____

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

Cadwch gopi o'r ffurflen gyflawn hon a dychwelyd yr un gwreiddiol
gyda'r holl wybodaeth ategol i:

HawliadauAtebolrwydd@caerdydd.gov.uk

Neu drwy'r post i:

Cyngor Caerdydd, Hawliadau Yswiriant, Ystafell 354, Caerdydd, CF10 4UW